

Cwestiynau cyfweliad swydd ddysgu

Pam ydych yn ymgeisio am y swydd hon?

Beth sydd yn eich gwneud yn addas ar gyfer y swydd hon?

Beth sydd yn apelio atoch am y swydd hon/swydd yn yr ysgol hon?

Beth sydd yn gwneud gwers dda?

Disgrifiwch wers lwyddiannus a ddysgoch yn ystod eich profiad addysgu proffesiynol?

Beth ydy pwysigrwydd asesu yn eich barn chi?

Sut ydych yn mynd ati i asesu o fewn eich pwnc?

Pa mor bwysig ydy asesu ar gyfer dysgu?

Beth ydy pwysigrwydd gwahaniaethu?

Disgrifiwch sut y byddech yn mynd ati i wahaniaethu o fewn gwers?

Sut ydych chi'n mynd ati i sicrhau eich bod yn diwallu anghenion pob disgybl yn eich gwers?

Pa strategaethau y byddech yn eu defnyddio er mwyn cynnal diddordeb bechgyn o fewn gwersi?

Sut y byddech yn mynd i'r afael â thangyflwani bechgyn o fewn y pwnc?

Beth ydy rôl yr athro dosbarth?

Pa mor bwysig ydy gofal bugeiliol?

Beth y gallech ei gynnig allgyrsiol?

Pa syniadau sydd gennych er mwyn hybu Cymreictod o fewn ein hysgol?

Sut y byddech yn annog disgyblion i ddarllen?

Sut y byddech yn ymateb i'r Framwaith Llythrennedd a Rhifedd yn eich pwnc/gwersi?

Disgrifiwch sut y byddech yn delio gyda disgybl yn camymddwyn o fewn eich gwers?

Beth yw pwysigrwydd TGCh o fewn eich pwnc? Sut y gall y defnydd o TGCh atgyfnerthu'r dysgu ac addysgu yn eich pwnc?

Sut ydych chi'n mynd ati i farchnata'ch pwnc ar gyfer TGAU/Safon Uwch?